Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Rheolwr Tîm - Tîm Cefnogi Newid** |
| **Lleoliad:** | **Hyblyg** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Swydd Rhif:** | **BG12941** |
| **Cyflog:** | **Gradd 11 (£52,805 – £56,085 y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |
| **Contract:** | **Parhaol** |

## Crynodeb o'r Swydd

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent angen Rheolwr Tîm profiadol ac ymroddedig i oruchwylio'r Tîm Cefnogi Newid sydd.

Byddwch yn rheoli ac yn goruchwylio staff wrth gyflwyno ymyriadau dwys i deuluoedd gyda'r nod o atal plant rhag dod i Dderbyn Gofal, gan gefnogi plant y dynodwyd adsefydlu ar eu cyfer fel eu cynllun parhauster, cyfrannu at asesiadau o botensial dros newid ac adsefydlu.

## Hysbyseb Lawn

Fel Rheolwr Tîm - Tîm Cefnogi Newid byddwch yn sicrhau y caiff gwaith ei ddyrannu mewn modd priodol i'r holl staff sydd dan eich goruchwyliaeth ac y caiff gwaith ei gofnodi, ei reoli a'i flaenoriaethu i amserlenni a safonau a gytunwyd.

Byddwch yn cadeirio cyfarfodydd perthnasol a chefnogi staff wrth fynychu Llysoedd a Chynadleddau Amddiffyn Plant lle bo angen. Byddwch yn datblygu ac yn cynnal systemau monitro perfformiad ac yn sicrhau y caiff ymarfer proffesiynol a datblygiad proffesiynol staff ei hyrwyddo, ei gefnogi a'i fonitro drwy oruchwyliaeth rheolaidd ac ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau yng nghyswllt perfformiad y tîm.

Bydd gennych Dystysgrif, Diploma neu Radd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster cyfwerth mewn gwaith cymdeithasol a byddwch wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a bydd gennych profiad sylweddol ôl-gymhwyso o ofal plant statudol. Mae'r meini prawf hanfodol eraill yn cynnwys:

- Ymgyfraniad uniongyrchol gydag amddiffyn plant p'un ai fel ymarferydd neu fel rheolwr
- Profiad o gadeirio cyfarfodydd
- Profiad o systemau sicrwydd ansawdd a rheoli perfformiad

Bydd gennych wybodaeth o ddeddfwriaeth, canllawiau a rheoliadau perthnasol a gwybodaeth a dealltwriaeth o ymchwil ac arfer da cyfredol mewn Gwaith Cymdeithasol.

**Mae angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.**

**Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol https://socialcare.wales**

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd lenwi cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg**

**Dyddiad Cau 05.12.2024**

**Dyddiad Cyfweliadau 18.12.2024**